Cliciwch yma i ailosod y ffurflen | Cliciwch yma i argraffu'r ffurflen

COP 1 12.13

Y Llys Gwarchod

# Ffurflen gais

| At ddefnydd y swyddfa'n unig |
| --- |
| Dyddiad derbyn |
| Rhif yr achos |
| Dyddiad cyhoeddi |

SEAL

Enw llawn y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef
(dyma enw'r unigolyn nad oes ganddo alluedd, neu yr honnir nad oes ganddo alluedd)

## Darllenwch hwn i ddechrau

- Os ydych chi'n dymuno gwneud cais i gychwyn achos yn y Llys Gwarchod, rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon a'i ffeilio gyda'r llys.
- Os ydy'ch cais yn cael ei wneud yn ystod achos, bydd angen ichi lenwi ffurflen wahanol - hysbysiad cais COP9 ar gyfer ceisiadau yn ystod achosion.
- Os ydych chi'n apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Gwarchod, bydd angen ichi lenwi'r COP35 - hysbysiad apelydd.
- Rhaid i chi dalu ffi wrth ffeilio cais. Edrychwch yn y daflen ffioedd i gael y manylion.
- Efallai y bydd raid ichi dalu am unrhyw gostau y byddwch yn eu hwynebu yn ystod yr achos. Os bydd y llys o'r farn eich bod wedi ymddwyn yn afresymol, gall orchymyn ichi dalu costau partïon eraill.
- Defnyddiwch ddalen bapur ar wahân i barhau os oes angen mwy o le arnoch i ateb cwestiwn. Ysgrifennwch eich enw chi, enw a dyddiad geni'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef a rhif y cwestiwn rydych yn ei ateb ar bob dalen ar wahân.
- Mae rhagor o nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen hon.
- Os oes angen help arnoch chi i lenwi'r ffurflen hon, ewch i'r wefan, www.justice.gov.uk neu www.direct.gov.uk, i gael rhagor o arweiniad neu wybodaeth, neu cysylltwch â Gwasanaeth Ymholiadau'r Llys ar 0300 456 4600 neu anfon e-bost at courtofprotectionenquiries@hmcts.gsi.gov.uk
- Ni chaiff staff y Llys Gwarchod roi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, cysylltwch â chyfreithiwr.

© Hawlfraint y Goron 2013

## Adran 1 – Eich manylion chi (y ceisydd)

1.1 Eich manylion ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ________

Enw cyntaf

Enw(au)canol

Cyfenw

1.2 Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Rhif ffôn

| | |
|---|---|
| Yn ystod y dydd | |
| Gyda'r nos | |
| Symudol | |

Cyfeiriad e-bost

1.3 A oes cyfreithiwr yn eich cynrychioli chi? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion y cyfreithiwr.

Enw

Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif ffôn | | Rhif ffacs | |
| Rhif DX | | | |
| Cyfeiriad e-bost | | | |

1.4 I ba gyfeiriad y dylid anfon dogfennau swyddogol?

☐ Eich cyfeiriad chi

☐ Cyfeiriad y cyfreithiwr

☐ Cyfeiriad arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)

1.5 Ai chi yw'r unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef? ☐ Ie ☐ Na

Os Na, beth yw eich perthynas neu eich cysylltiad chi â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef?

1.6 Os ydych chi'n gwneud cais fel cynrychiolydd, nodwch ar ba sail, os gwelwch yn dda.

## Adran 2 – Y sawl y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef

2.1 ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ________

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

2.2 Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post)

Rhif ffôn

| | |
|---|---|
| Yn ystod y dydd | |
| Gyda'r nos | |
| Symudol | |

Cyfeiriad e-bost

2.3 Dyddiad geni D D M M B B B B ☐ Gwryw ☐ Benyw

## Adran 3 – Caniatâd i wneud cais

3.1 Ydych chi angen caniatâd y llys i wneud y cais hwn? **(Gweler nodyn 1)** ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os Ydw, mae angen ichi hefyd lenwi ffurflen ganiatâd COP2.

## Adran 4 – Pobl y dylid cyflwyno'r cais hwn iddynt a/neu eu hysbysu amdano

4.1 Rhowch fanylion pob atebydd. **(Gweler nodyn 2)**

| Enw llawn gan gynnwys teitl | Cyfeiriad llawn gan gynnwys y cod post | Cysylltiad â'r unigolyn y mae'r achos yn ymwneud ag ef |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

4.2 Rhowch fanylion pobl eraill y byddwch yn eu hysbysu. **(Gweler nodyn 3)**

| Enw llawn gan gynnwys teitl | Cyfeiriad llawn gan gynnwys y cod post | Cysylltiad â'r unigolyn y mae'r achos yn ymwneud ag ef |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Adran 5 – Y gorchymyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud

5.1 Nodwch y mater yr ydych am i'r llys wneud penderfyniad yn ei gylch? **(Gweler nodyn 4)**

5.2 Nodwch pa orchymyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud? **(Gweler nodyn 5)**

5.3 Sut fyddai'r gorchymyn o fudd i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef? **(Gweler nodyn 6)**

5.4 Ydych chi'n ymwybodol o gais/geisiadau blaenorol i'r Llys Gwarchod sy'n gysylltiedig â'r unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych chi, rhowch gymaint ag y gallwch o'r wybodaeth ganlynol. Os bu mwy nag un cais blaenorol atodwch y wybodaeth am y ceisiadau blaenorol ar ddalen o bapur ar wahân.

Enw'r ceisydd

Dyddiad y gorchymyn

| D | D | M | M | B | B | B | B |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Rhif yr achos

Atodwch gopi o'r gorchymyn/gorchmynion, os ydynt ar gael.

☐ Copi wedi'i atodi ☐ Ddim ar gael

## Adran 6 – Mynychu gwrandawiadau llys

6.1 Os bydd y llys angen ichi fynychu gwrandawiad a fydd angen unrhyw gymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch chi? **(Gweler nodyn 7)** ☐ Bydd ☐ Na fydd

Os Bydd, nodwch beth yw eich anghenion. Os bydd angen, efallai y bydd staff y llys yn cysylltu â chi am eich gofynion.

## Adran 7 - Datganiad gwirionedd

Mae'r datganiad gwirionedd i'w lofnodi gennych chi, eich cyfreithiwr neu eich cyfaill cyfreitha.

*(Rwy'n credu)(Mae'r ceisydd yn credu) bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen gais hon a'i hatodiad(au) yn wir.

**Llofnod**

*Ceisydd (cyfaill cyfreitha'r ceisydd)(cyfreithiwr y ceisydd)

**Enw**

**Dyddiad**

**Enw'r ffyrm**

**Safle neu swydd**

* Dilewch yr opsiynau mewn cromfachau nad ydynt yn berthnasol.

**Yn awr darllenwch nodyn 8 ynghylch beth i'w wneud nesaf.**

# Nodiadau canllaw

**Nodyn 1**

**Caniatâd i wneud cais**
Mewn rhai achosion, byddwch angen caniatâd y llys i wneud cais.

a) **Nid ydych** angen caniatâd y llys os yw'r cais:

- yn cael ei wneud gan unigolyn nad oes ganddo alluedd neu yr honnir nad oes ganddo alluedd (neu, os yw'r unigolyn dan 18 oed, gan unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant);
- yn cael ei wneud gan y Cyfreithiwr Swyddogol, y Gwarcheidwad Cyhoeddus, neu gan ddirprwy a benodwyd gan lys;
- yn ymwneud ag atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus; neu
- ynghylch gorchymyn llys sy'n bodoli eisoes ac yn cael ei wneud gan y sawl a enwir yn y gorchymyn hwnnw.

b) Efallai **na fydd** angen caniatâd y llys os yw'r cais yn ymwneud ag eiddo a materion y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddwch angen caniatâd. Mae rhai eithriadau i hyn - **bydd** angen caniatâd arnoch:

- pan fo eich cais yn ymwneud ag arfer awdurdodaeth y llys o dan adran 54(2) o Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925 ac nad ydych:
  - yn unigolyn sydd wedi gwneud cais am benodi dirprwy;
  - yn ymddiriedolwr parhaus; neu
  - yn unrhyw unigolyn arall a fyddai, yn ôl arfer yr Adran Siawnsri, wedi bod yn gymwys i wneud y cais petai wedi cael ei wneud yn yr Uchel Lys.
- pan fo eich cais o dan adran 36(9) o Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925 am ganiatâd i benodi ymddiriedolwr newydd yn lle'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ac nad ydych
  - yn gyd-ymddiriedolwr; neu
  - yn unigolyn arall gyda phŵer i benodi ymddiriedolwr newydd.
- pan fo eich cais yn ceisio arfer awdurdodaeth y llys o dan adran 18(1)(b) (lle mae hyn yn ymwneud â gwneud rhodd o eiddo'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef), (h) neu (i) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf), ac nad ydych:
  - yn unigolyn sydd wedi gwneud cais am benodi dirprwy;
  - yn unigolyn a allai, o dan unrhyw ewyllys y gwyddys amdani y sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu o dan ei ddiewyllysedd, ddod i gael hawl i unrhyw eiddo neu unrhyw fudd ohono;
  - yn unigolyn sy'n atwrnai a benodwyd o dan atwrneiaeth barhaus a gofrestrwyd yn unol â'r Ddeddf neu'r rheoliadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 4 i'r Ddeddf;
  - yn unigolyn sy'n derbyn atwrneiaeth arhosol a gofrestrwyd yn unol â'r Ddeddf; neu
  - yn unigolyn y gellid disgwyl i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef wneud darpariaeth ar ei gyfer pe byddai ganddo alluedd i wneud hynny.
- pan fo eich cais o dan adran 20 o Ddeddf Ymddiriedau Tir a Phenodiadau Ymddiriedolwyr 1996, ac nad ydych yn fuddiolwr dan yr ymddiriedaeth neu os oes mwy nag un ohonynt, gan y ddwy neu'r cyfan ohonynt.

c) **Mae** angen caniatâd y llys ar gyfer pob cais arall.

Lle bo rhan o'r cais yn ymwneud â mater sydd angen caniatâd, a rhan ohono heb fod angen caniatâd, yr ydych angen caniatâd y llys am y rhan sydd angen caniatâd yn unig.

**Nodyn 2**

**Atebwyr**

Rhaid ichi roi manylion unrhyw unigolion y credwch yn rhesymol sydd â diddordeb neu fudd sy'n golygu y dylent gael eu clywed gan y llys mewn perthynas â'r cais. Caiff atebwyr gyfle i ymuno fel partïon yn yr achos os ydynt yn dymuno cymryd rhan yn y gwrandawiad.

Rhaid i chi gyflwyno copïau i'r atebwyr o'r holl ddogfennau yn ymwneud â'ch cais pan fydd y llys wedi cyhoeddi eich ffurflen gais er mwyn rhoi cyfle iddynt gefnogi neu wrthwynebu eich cais.

**Nodyn 3**

**Pobl eraill i'w hysbysu**

Rhaid ichi ddarparu manylion pobl eraill sy'n debygol o fod â diddordeb mewn cael eu hysbysu am eich cais. Rhaid i chi hysbysu'r bobl hyn pan fydd y llys wedi cyhoeddi eich ffurflen gais. Mae ganddynt gyfle i wneud cais i'r llys am gael ymuno fel partïon yn yr achos os ydynt yn dymuno cymryd rhan.

Dylech geisio canfod o leiaf dri o bobl i'w hysbysu am eich cais. Os nad ydych eisoes wedi enwi'r aelodau canlynol o'r teulu agos fel atebwyr, dylid eu hysbysu, mewn trefn ddisgynnol fel y bo'n briodol i amgylchiadau'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef:

a) priod neu bartner sifil

b) unigolyn nad yw'n ŵr/gwraig neu bartner sifil ond sydd wedi bod yn byw gyda'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef fel pe baent felly

c) rhiant neu warcheidwad

d) plentyn

e) brawd neu chwaer

f) nain/taid, tad-cu/mam-gu neu ŵyr/wyres

g) modryb neu ewythr

h) nith neu nai

i) llysfam neu lystad

j) hanner brawd neu hanner chwaer

Lle byddwch o'r farn y dylid hysbysu unigolyn a restrir yn un o'r categorïau, a bod pobl eraill yn y categori hwnnw (e.e. mae gan yr unigolyn bedwar brawd a chwaer) dylech ddarparu manylion yr holl bobl a ddaw o fewn y categori hwnnw – oni fo rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Nid oes angen ichi ddarparu manylion ar gyfer aelod agos o'r teulu nad yw'n ymwneud ddim neu fawr ddim â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu os oes rheswm da arall paham na ddylent gael eu hysbysu.

Mewn rhai achosion, gallai'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef fod yn agosach at bobl nad ydynt yn berthnasau, ac os felly, bydd yn briodol darparu eu manylion hwy yn lle aelodau agos o'r teulu.

Yn ogystal â'r rhestr uchod, dylech hefyd ddarparu manylion (os yn berthnasol):

- unrhyw unigolyn â chyfrifoldeb rhiant, os yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef o dan 18 oed;
- unrhyw unigolyn cyfreithiol neu naturiol sy'n debygol o gael ei effeithio gan ganlyniad y cais (e.e. awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth gofal sylfaenol);
- unrhyw unigolyn sydd ag awdurdod i weithredu fel atwrnai neu ddirprwy mewn perthynas â mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
- unrhyw unigolyn sydd, yn eich barn chi, â diddordeb mewn cael ei hysbysu (e.e. ffrind agos sy'n darparu gofal anffurfiol).

**Nodyn 4**

**Mater yr ydych am i'r llys benderfynu arno**

Ym mhob achos, rhaid i'r llys benderfynu a yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn alluog i wneud penderfyniad ynghylch y mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Felly, mae angen ichi ddatgan y mater yr ydych yn gofyn i'r llys benderfynu arno (h.y. y mater y teimlwch na all yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef wneud penderfyniad arno drosto'i hun).

Er enghraifft, os yw eich cais yn ymwneud â lles personol, efallai y byddwch eisiau i'r llys benderfynu a yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn alluog i benderfynu ymhle y mae'n byw. Os yw eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol, efallai y byddwch eisiau i'r llys benderfynu a yw'r unigolyn yn alluog i wneud penderfyniadau ynghylch rheoli ei fuddsoddiadau.

**Nodyn 5**

**Y gorchymyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud**

Mae angen ichi nodi pa orchymyn yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud. Byddwch yn benodol ynghylch beth yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud.

Er enghraifft, efallai eich bod am i'r llys orchymyn y dylai'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef symud i gartref penodol, neu y dylid gwneud rhyw fuddsoddiad penodol. Ym mhob un o'r enghreifftiau byddai angen ichi ddarparu manylion penodol y cartref neu'r buddsoddiad.

Nodyn 6

### Budd i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

Mae angen ichi egluro sut y bydd y gorchymyn yr ydych yn gwneud cais amdano o fudd i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Os ydych chi'n gofyn i'r llys benodi dirprwy, eglurwch pam yr ydych yn credu bod hyn yn angenrheidiol a pham na ddylai'r llys wneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Nodyn 7

### Mynychu gwrandawiadau llys

Os byddwch angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd neu nam, nodwch eich gofynion yn llawn os gwelwch yn dda. Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu'r llys o'ch anghenion, er mwyn osgoi achosi unrhyw oedi.

Bydd angen i staff y llys wybod, er enghraifft, a ydych am gael dogfennau mewn fformat gwahanol, megis Braille neu brint bras. Byddant hefyd angen gwybod am unrhyw ofynion penodol allai fod gennych os cynhelir gwrandawiad, megis mynediad i gadair olwyn, system dolen clyw, neu ddehonglydd iaith arwyddion.

Nodyn 8

### Beth i'w wneud nesaf

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen gais hon, mae angen ichi ystyried pa ffurflenni eraill y mae angen i chi eu llenwi. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'n gwasanaethau i gwsmeriaid.

<table>
<tr><th>Math o Gais</th><th>Ffurflenni i’w llenwi</th></tr>
<tr><td>Yr ydych angen caniatâd<br><br>a<br><br>Y mae eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol</td><td>Rhaid ichi lenwi’r ffurflenni canlynol yn awr:<ul><li>COP2 - Ffurflen Ganiatâd</li><li>COP3 Asesiad o alluedd</li></ul>Rhaid ichi lenwi’r ffurflen ganlynol, ond gallwch ddewis gwneud hynny yn awr, neu aros nes y rhoddir caniatâd:<ul><li>COP1A Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau ynghylch eiddo a materion ariannol</li></ul>Os ydych chi’n gwneud cais i gael eich penodi’n ddirprwy, yna rhaid ichi lenwi’r ffurflen ganlynol, ond gallwch ddewis gwneud hynny yn awr, neu aros nes y rhoddir caniatâd:<ul><li>COP4 Datganiad dirprwy</li></ul></td></tr>
<tr><td>Yr ydych angen caniatâd<br><br>a<br><br>Y mae eich cais yn ymwneud â lles personol</td><td>Rhaid ichi lenwi’r ffurflenni canlynol yn awr:<ul><li>COP2 Ffurflen Ganiatâd</li><li>COP3 Asesiad o alluedd</li></ul>Rhaid ichi lenwi’r ffurflen ganlynol, ond gallwch ddewis gwneud hynny yn awr, neu aros nes y rhoddir caniatâd:<ul><li>COP1B Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau lles personol</li></ul>Os ydych chi’n gwneud cais i gael eich penodi’n ddirprwy, yna rhaid ichi lenwi’r ffurflen ganlynol, ond gallwch ddewis gwneud hynny yn awr, neu aros nes y rhoddir caniatâd:<ul><li>COP4 Datganiad dirprwy</li></ul></td></tr>
<tr><td>Yr ydych angen caniatâd<br><br>a<br><br>Y mae eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol a lles personol</td><td>Rhaid ichi lenwi’r ffurflenni canlynol yn awr:<ul><li>COP2 Ffurflen Ganiatâd</li><li>COP3 Asesiad o alluedd</li></ul>Rhaid ichi lenwi’r ffurflenni canlynol, ond gallwch ddewis gwneud hynny yn awr, neu aros hyd nes y rhoddir caniatâd:<ul><li>COP1A Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau ynghylch eiddo a materion ariannol</li><li>COP1B Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau lles personol</li></ul>Os ydych chi’n gwneud cais i gael eich penodi’n ddirprwy, yna rhaid ichi lenwi’r ffurflen ganlynol, ond gallwch ddewis gwneud hynny yn awr, neu aros nes y rhoddir caniatâd:<ul><li>COP4 Datganiad dirprwy</li></ul></td></tr>
</table>

| Math o Gais | Ffurflenni i'w llenwi |
|---|---|
| Nid oes angen caniatâd arnoch<br>**a**<br>Y mae eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol | Rhaid ichi lenwi'r ffurflenni canlynol yn awr:<br>• **COP3 Asesiad o alluedd**<br>• **COP1A Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau ynghylch eiddo a materion ariannol**<br>Os ydych chi'n gwneud cais i gael eich penodi'n ddirprwy yna rhaid i chi hefyd lenwi'r ffurflen ganlynol yn awr:<br>• **COP4 Datganiad dirprwy** |
| Nid oes angen caniatâd arnoch<br>**a**<br>Y mae eich cais yn ymwneud â lles personol | Rhaid ichi lenwi'r ffurflenni canlynol yn awr:<br>• **COP3 Asesiad o alluedd**<br>• **COP1B Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau lles personol**<br>Os ydych chi'n gwneud cais i gael eich penodi'n ddirprwy yna rhaid i chi hefyd lenwi'r ffurflen ganlynol yn awr:<br>• **COP4 Datganiad dirprwy** |
| Nid oes angen caniatâd arnoch<br>**a**<br>Y mae eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion ariannol a lles personol | Rhaid ichi lenwi'r ffurflenni canlynol yn awr:<br>• **COP3 Asesiad o alluedd**<br>• **COP1A Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau ynghylch eiddo a materion ariannol**<br>• **COP1B Gwybodaeth ategol ar gyfer ceisiadau lles personol**<br>Os ydych chi'n gwneud cais i gael eich penodi'n ddirprwy yna rhaid i chi hefyd lenwi'r ffurflen ganlynol yn awr:<br>• **COP4 Datganiad dirprwy** |

**Os na allwch ddarparu'r ffurflen COP3 - asesiad o allu**

Os na allwch ddarparu'r COP3 - ffurflen asesiad o allu (er enghraifft, oherwydd bod yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn gwrthod derbyn asesiad) yna mae angen i chi lenwi a ffeilio datganiad tyst COP24 gyda'r ffurflen gais, gan egluro:

- pam na allwch ddarparu asesiad o alluedd;
- pa ymdrechion a wnaed (os o gwbl) i gael asesiad o allu; a
- pam rydych yn gwybod neu'n credu bod yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn analluog i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater yr ydych am i'r llys benderfynu arno.

### Dogfennau eraill i'w ffeilio

Rhaid i'r dogfennau canlynol hefyd gael eu ffeilio gyda'r ffurflen gais, os ydynt yn berthnasol:

- os rhoddwyd caniatâd eisoes, copi o'r gorchymyn llys yn rhoi caniatâd;
- y gorchymyn yn penodi dirprwy lle bo'r cais yn ymwneud â dirprwy neu'n cael ei wneud ganddo;
- y gorchymyn yn penodi cyfaill cyfreitha, lle bo'r cais yn cael ei wneud gan gyfaill cyfreitha neu'n ymwneud â phenodi cyfaill cyfreitha;
- gorchymyn y Llys Gwarchod, lle mae'r cais yn ymwneud â'r gorchymyn;
- gorchymyn llys arall, lle mae'r cais yn ymwneud â'r gorchymyn;
- unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y bwriadwch ddibynnu arni (yn unol â'r cyfarwyddyd ymarfer perthnasol) gan ddefnyddio'r ffurflen datganiad tyst - COP24;
- unrhyw ddogfennau eraill yr ydych yn cyfeirio atynt yn y ffurflen gais; ac
- unrhyw wybodaeth a deunydd arall a allai gael ei nodi mewn cyfarwyddyd ymarfer sy'n ategu Rheolau'r Llys Gwarchod 2007.

Mae'r llys angen dau gopi (h.y. y gwreiddiol ac un copi) o bob ffurflen a dogfen a ffeilir gennych.

Dychwelwch y ffurflenni gwreiddiol wedi'u llenwi, y dogfennau a'r copïau at:

Y Llys Gwarchod
PO Box 70185
First Avenue House
42-49 High Holborn
Llundain WC1A 9JA

DX 160013
Kingsway 7

**Nodyn 9**

### Beth sy'n digwydd nesaf?

### Os oes angen caniatâd arnoch i wneud cais

Bydd y llys yn dweud wrthych pan fydd caniatâd yn cael ei roi, ei wrthod neu os pennwyd dyddiad ar gyfer gwrando'r cais am ganiatâd.

Os rhoddir caniatâd yna bydd angen ichi ffeilio unrhyw ffurflenni eraill y mae angen ichi eu llenwi, os ydych wedi dewis peidio â ffeilio'r rhain gyda'r ffurflen ganiatâd.

Os rhoddir caniatâd, a'r llys wedi derbyn y ffurflenni cywir wedi'u llenwi, bydd yn cyhoeddi eich ffurflen gais a bydd yr achos cyfreithiol yn cychwyn. Bydd y llys yn eich hysbysu pan fydd eich ffurflen gais wedi cael ei chyhoeddi a bydd yn dychwelyd copi o'r ffurflen gais wedi'i selio, atoch. Bydd angen ichi gyflwyno copi i bob atebydd a hysbysu'r sawl y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a'r bobl eraill yr ydych wedi'u henwi yn adran 4.2 y ffurflen hon.

### Os nad oes angen caniatâd arnoch i wneud cais

Pan fydd y llys wedi derbyn y ffurflenni cywir wedi'u llenwi, bydd yn cyhoeddi eich ffurflen gais a bydd yr achos cyfreithiol yn cychwyn. Bydd y llys yn eich hysbysu pan fydd eich ffurflen gais wedi cael ei chyhoeddi a bydd yn dychwelyd copi o'r ffurflen gais wedi'i selio, atoch. Bydd angen ichi gyflwyno copi i bob atebydd a hysbysu'r sawl y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a'r bobl eraill yr ydych wedi'u henwi yn adran 4.2 y ffurflen hon.